


A photograph of a white lighthouse with a red top, situated on a rocky shore. The lighthouse is the central focus, with a staircase leading up to its base. The foreground is filled with large, dark rocks, and the background shows the sea under a clear blue sky.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Canllaw Byr i'r Cynllun ar gyfer Gweithwyr yng Nghymru a Lloegr Mehefin 2025

Tudalen Cynnwys

Pwynt i'w nodi: newidiadau i oed pensiwn	4
Prif Bwyntiau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	4
Y Cynllun.....	5
Pa fath o gynllun yw hwn?	6
Pwy all ymuno?	6
Sut fyddaf i'n gwybod fy mod wedi ymuno â'r Cynllun?	7
Allaf i optio allan o'r Cynllun ac ailymuno wedyn?	7
Faint ydw i'n ei dalu?	8
Tabl 1: Bandiau cyfrannu ar gyfer 2025/2026	8
Ydw i'n cael rhyddhad treth?	9
Cyfraniadau	9
A yw fy nghyflogwr yn cyfrannu?	9
A oes hyblygrwydd i dalu llai o gyfraniadau?	9
A fedraf i dalu cyfraniadau ychwanegol i gynyddu fy muddion?	9
Ailymuno â'r Cynllun	9
Allaf i drosglwyddo pensiynau i mewn nad ydynt yn rhan o'r Cynllun?	10
Beth os ydw i'n cael pensiwn o'r Cynllun yn barod?	10
Hyblygrwydd wrth Gyfrannu.....	11
Hyblygrwydd i dalu llai.....	11
Hyblygrwydd i dalu mwy.....	11
Eich Pensiwn	12
Sut cyfrifir fy mhensiwn?	12
Buddion a gasglwyd ers 1 Ebrill 2014	12
Enghraifft o brif adran y Cynllun	13
Pa gyflog a ddefnyddir yn sail i gyfrifo fy mhensiwn?	13
Buddion a gasglwyd cyn 1 Ebrill 2014.....	13
Tanategu	14
Gadael y Cynllun cyn ichi ymddeol	14
Ad-dalu cyfraniadau	14
Buddion gohiriedig.....	15
Beth os oes gen i ddwy swydd neu fwy yn y Cynllun?	16
Trosglwyddo eich buddion.....	16

Trosglwyddo eich buddion i gynllun cyfraniadau diffiniedig	17
Twyll pensiynau.....	17
Ymddeol	19
Pryd allaf i ymddeol a chymryd fy mhensiwn o'r Cynllun?.....	19
A fydd fy mhensiwn yn llai os ydw i'n ymddeol yn gynnar?	19
Beth os ydw i'n colli fy swydd drwy ddiswyddo neu arbedion effeithlonrwydd busnes? ..	20
Beth sy'n digwydd os oes raid imi ymddeol yn gynnar oherwydd afiechyd?.....	20
Allaf i ymddeol yn raddol?	20
Beth os ydw i'n parhau i weithio ar ôl cyrraedd fy oedran ymddeol arferol?.....	21
Sut mae fy mhensiwn yn cadw ei werth?	21
Allaf i gyfnewid rhan o fy mhensiwn am gyfandaliad?	21
Cymryd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ar ffurf arian parod	22
Ffyrdd eraill o ddefnyddio eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol	22
Gwarchod eich teulu	23
Pa fuddion fydd yn cael eu talu pan fyddaf i farw?	23
Faint fydd y grant marwolaeth?.....	23
I bwy mae'r cyfandaliad grant marwolaeth yn cael ei dalu?	24
Beth fydd yn cael ei dalu i fy mhartner sy'n goroesi?.....	24
Beth fydd yn cael ei dalu i fy mhlant cymwys?	25
Cymorth â phroblemau pensiwn	25
At bwy allaf i droi am gymorth gyda chwestiwn neu gŵyn?	25
Y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol.....	25
HelpwrArian	25
Yr Ombwdsmon Pensiynau	26
Y Rheoleiddiwr Pensiynau.....	26
Sut allaf i olrhain hen fuddion pensiwn?	27
Chwalu Jargon	28
Mwy o wybodaeth ac ymwadiad	34

Pwynt i'w nodi: newidiadau i oed pensiwn

Mae'r canllaw hon yn egluro mai'r oedran ymddeol isaf yw 55 oed ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gallwch dynnu eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych angen cymryd eich pensiwn yn gynt oherwydd salwch.

Fe allech gael eich gwarchod rhag y cynnydd hwn os gwnaethoch ymuno â'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Gallech hefyd fod wedi'ch gwarchod os gwnaethoch drosglwyddo pensiwn blaenorol i'r Cynllun, os yw rhai amodau penodol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, dim ond pan fyddwch chi'n tynnu eich pensiwn CPLIL y byddwch chi'n gallu cael eich gwarchod, os yw rheolau'r Cynllun yn caniatáu ichi dynnu eich pensiwn cyn troi'n 57 oed.

Llywodraeth y DU sy'n gosod rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw wedi ei gadarnhau eto os bydd yn caniatáu i aelodau, sy'n gymwys i gael eu gwarchod, gymryd eu pensiwn CPLIL cyn eu bod yn 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028.

Lle mae 55 yn cael ei nodi ar weddill y anllaw hon, cofiwch y bydd hyn yn newid i 57 o 6 Ebrill 2028.

Prif Bwyntiau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (y Cynllun):

- **Yn rhoi buddion pensiwn sicr i chi:** mae'n sicrhau bod gennych chi incwm yn y dyfodol nad yw'n gysylltiedig â phrisiau cyfranddaliadau a'r farchnad stoc
- **Yn gost isel i chi:** gan gynnwys arbedion treth
- **Yn golygu bod eich cyflogwr yn talu iddo hefyd:** eich cyflogwr sy'n darparu'r Cynllun ichi. Eich cyflogwr sy'n talu gweddill y gost o ddarparu eich buddion pensiwn.

Fel aelod o'r Cynllun, gallwch edrych ymlaen at ymddeol a chael:

Pensiwn sicr: a gyfrifir bob blwyddyn yn y cynllun a'i ychwanegu at eich cofnod pensiwn. Mae'r pensiwn a ychwanegir at eich cofnod ar ddiwedd blwyddyn yn y cynllun yn swm cyfwerth ag 1 rhan o 49 o'ch cyflog pensiynadwy yn y flwyddyn honno (os ydych ym mhrif adran y cynllun). Caiff cyfanswm y pensiwn ar eich cofnod ddiwedd pob blwyddyn yn y cynllun ei addasu yn y mis Ebrill canlynol gan ystyried costau byw (ar sail y Mynegai Prisiau Defnyddwyr). Mae blwyddyn y Cynllun yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth.

Hyblygrwydd i dalu mwy neu lai o gyfraniadau: gallwch gynyddu eich pensiwn drwy dalu mwy o gyfraniadau, ac ni fyddai treth arnynt. Gallwch hefyd ddewis talu hanner eich cyfraniadau arferol yn gyfnewid am hanner eich pensiwn arferol. Gelwir yr elfen hon o'r Cynllun yn 50:50. Nod 50:50 yw helpu aelodau i aros yn y cynllun pan maent yn wynebu cyfnod ariannol anodd.

Arian di-dreth: pan fyddwch chi'n cymryd eich pensiwn, mae dewis i chi gyfnewid rhywfaint ohono am swm o arian di-dreth.

Tawelwch meddwl: mae'n rhoi sicrwydd ariannol i'ch teulu, gydag yswiriant bywyd a phensiwn ar gyfer eich gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner cymwys sy'n cydfyw â chi a phlant cymwys pe baech yn marw yn y swydd.

Os byddwch chi'n mynd yn ddifrifol wael ac wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun am o leiaf dwy flynedd, gallech gael buddion pensiwn afiechyd ar unwaith.

Rhyddid i ddewis pryd i gymryd eich pensiwn: nid oes rhaid ichi fod wedi cyrraedd eich oedran ymddeol arferol er mwyn gallu cymryd eich pensiwn. Ar ôl i chi dalu cyfraniadau i'r Cynllun am o leiaf ddwy flynedd, gallwch ddewis ymddeol a chymryd eich pensiwn ar unrhyw adeg rhwng pan fyddwch yn 55 a 75 oed. Eich oedran ymddeol arferol yw'r oedran y cewch ymddeol a chymryd y pensiwn yr ydych wedi'i gasglu heb ostyngiadau am ymddeol yn gynnar. Oedran ymddeol arferol yw naill ai eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu 65 oed, pa un bynnag yw'r hynaf.

Os dewiswch gymryd eich pensiwn cyn eich oedran ymddeol arferol, bydd fel arfer yn llai oherwydd ei dalu'n gynharach. Os ydych yn ei gymryd ar ôl eich oedran ymddeol arferol, bydd yn cynyddu oherwydd ei dalu'n hwyrach.

Ymddeol oherwydd diswyddo ac arbedion effeithlonrwydd: Os ydych yn cael eich diswyddo neu'n ymddeol oherwydd arbedion effeithlonrwydd busnes pan ydych yn 55 oed neu'n hŷn, bydd y buddion rydych wedi'u casglu'n cael eu talu ichi ar unwaith, ar yr amod eich bod wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun am o leiaf dwy flynedd. Ni fyddai eich prif fuddion yn y Cynllun yn gostwng oherwydd eu talu'n gynnar. (Byddai unrhyw bensiwn ychwanegol rydych wedi'i brynu'n gostwng os nad ydych wedi cyrraedd eich oedran ymddeol arferol pan fyddwch yn ymddeol).

Ymddeoliad hyblyg: efallai y byddwch eisiau meddwl am ymddeoliad hyblyg os:

- ydych yn 55 mlwydd oed neu'n hŷn
- ydych wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun am o leiaf dwy flynedd, a
- bod gan eich cyflogwr bolisi ymddeoliad hyblyg a'i fod yn caniatáu ichi ymddeol yn hyblyg.

Mae ymddeoliad hyblyg yn eich helpu chi i ddod i arfer ag ymddeol yn raddol. Os ydych yn gostwng eich oriau neu'n symud i swydd gradd is, gallwch gymryd yr holl fuddion rydych eisoes wedi'u casglu neu rywfaint ohonynt. Gallai eich buddion fod yn llai oherwydd eu talu'n gynnar.

Y Cynllun

Mae'r canllaw byr hwn yn nodi pwy all ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a phrif fuddion y cynllun.

Gallwch ddarganfod mwy am y cynllun yn y [fideos i aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: 'Pensions Made Simple'](#). Mae 'Beth yw pensiwn' a 'Sut mae'ch pensiwn yn gweithio' yn egluro'r cynllun yn fras.

Pa fath o gynllun yw hwn?

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn gwaith â buddion diffiniedig, wedi'i gymeradwyo am ryddhad treth a sefydlwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Gwneir rheolau'r cynllun o dan Ddeddf Cynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 bellach.

Sefydlwyd y Cynllun ar gontract allanol i gynllun Ail Bensiwn y Wladwriaeth tan 5 Ebrill 2016. Daeth y contract hwnnw i ben ar 6 Ebrill 2016 ar gyfer yr holl gynlluniau pensiwn yn sgil cyflwyno Pensiwn y Wladwriaeth un haen. Mae'r Cynllun yn bodloni safonau'r Llywodraeth dan ddarpariaethau cofrestru awtomatig Deddf Pensiynau 2008.

Cyfrifir y swm o bensiwn a enillwch mewn blwyddyn yn y Cynllun a'i ychwanegu at eich cofnod pensiwn bob blwyddyn. Caiff cyfanswm y pensiwn ar eich cofnod pensiwn ei ailbrisio ym mis Ebrill ar ôl pob blwyddyn yn y cynllun, fel bod eich pensiwn yn tyfu gyda chostau byw.

Mae'ch arian yn ddiogel yn y Cynllun gan fod y buddion wedi'u pennu dan y gyfraith.

Pwy all ymuno?

Mae'r Cynllun ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes llywodraeth leol ac i sefydliadau eraill sydd wedi dewis defnyddio'r Cynllun fel eu pensiwn gwaith. I fod yn gymwys i ymuno â'r Cynllun, mae angen i chi fod yn iau na 75 oed a bod yn gweithio i gyflogwr sy'n cynnig aelodaeth o'r cynllun. Os ydych chi'n cael eich cyflogi gan un o'r canlynol, ni allwch ymuno ond os yw eich cyflogwr yn eich enwebu:

- cyngor tref, cymuned neu blwyf (a elwir yn gorff penderfyniadau)
- sefydliad sydd ddim yn cael ei gyfrif yn sefydliad llywodraeth leol sy'n cymryd rhan yn y Cynllun (a elwir yn gorff derbyn)

Nid yw swyddogion heddlu, diffoddwyr tân gweithredol, athrawon na gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â chynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall, fel Cynllun Pensiwn y GIG, yn cael ymuno â'r Cynllun.

Os ydych chi'n gymwys, byddwch yn ymuno'n awtomatig ar ddyddiad cychwyn eich swydd, oni bai fod eich contract cyflogaeth yn un am lai na thri mis. Os yw eich contract am lai na thri mis, gallwch ddewis ymuno trwy lenwi ffurflen optio i mewn. Os nad ydych yn penderfynu ymuno, gallech ddal ddod yn aelod yn awtomatig os yw eich cyflogwr:

- yn ymestyn eich contract i fod yn dri mis neu fwy. Byddwch yn ymuno â'r cynllun o'r cyfnod cyflog ar ôl ymestyn eich contract
- yn gorfod eich cofrestru yn y cynllun dan y rheolau cofrestru awtomatig. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr eich cofrestru os ydych yn ddeiliad swydd cymwys, oni bai bod eich cyflogwr yn penderfynu gohirio'r dyddiad yr ydych yn ymuno. Mae rhywun yn gymwys yn rhinwedd eu swydd os ydynt dros 22 oed, yn iau nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac yn ennill mwy na £10,000 y flwyddyn.

Os byddwch yn ymuno â'r cynllun, gallwch ddewis i optio allan. Gallwch lenwi ffurflen optio allan ar ôl i chi ddechrau eich swydd.

Sut fyddaf i'n gwybod fy mod wedi ymuno â'r Cynllun?

Pan ymunwch chi â'r Cynllun, caiff cofnod pensiwn ei greu ac fe gewch chi lythyr swyddogol yn nodi eich bod yn aelod o'r Cynllun. Os oes gennych fwy nag un swydd yn y cynllun, bydd gennych gofnod pensiwn ar gyfer pob un. Dylech hefyd edrych ar eich slip cyflog i sicrhau bod eich cyfraniadau pensiwn yn cael eu didynnu.

Allaf i optio allan o'r Cynllun ac ailymuno wedyn?

Gallwch, gallwch optio allan o'r cynllun. Os ydych yn ystyried optio allan, efallai y byddech eisiau meddwl yn gyntaf am newid i adran 50:50 y cynllun. Mae 50:50 yn golygu eich bod yn talu hanner eich cyfraniadau arferol yn gyfnewid am gasglu hanner eich pensiwn arferol. I gael gwybod mwy, gweler yr adran ar [Hyblygrwydd i dalu llai](#).

Ar ôl i chi ddarllen am yr adran 50:50, ac os ydych chi'n dal yn penderfynu nad yw'r Cynllun yn addas i chi, gallwch roi'r gorau i dalu cyfraniadau drwy lenwi ffurflen optio allan. Gallwch ond optio allan ar ôl ymaelodi â'r cynllun. Fe gewch chi ffurflen optio allan yn **adran ffurflenni ac adnoddau** ein gwefan neu drwy ffonio a gofyn am un drwy'r post. Mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y canllaw hwn. Ni chaniateir i'ch cyflogwr roi ffurflen optio allan i chi.

Efallai y byddwch eisiau cael cyngor ariannol annibynnol cyn penderfynu'n bendant eich bod am optio allan.

Os ydych yn optio allan o'r Cynllun cyn pen tri mis o aelodaeth, byddwch yn cael eich trin fel petaech heb fod yn aelod erioed. Bydd eich cyflogwr yn ad-dalu unrhyw gyfraniadau rydych wedi eu talu drwy eich cyflog.

Os ydych yn optio allan o'r Cynllun wedi bod yn aelod am dri mis neu fwy (ond llai na dwy flynedd) a bod gennych ddim buddion eraill yn y Cynllun yn unlle arall yng Nghymru a Lloegr:

- gallwch gymryd ad-daliad o'ch cyfraniadau (ar ôl tynnu 20% o dreth), neu
- gallwch drosglwyddo eich pensiwn allan i gynllun arall (cyhyd â bod gennych fwy na 12 mis cyn eich oedran ymddeol arferol).

Os ydych chi'n optio allan o'r Cynllun wedi bod yn aelod am fwy na dwy flynedd, bydd gennych fuddion gohiriedig yn y cynllun. Yn gyffredinol, bydd gennych yr un dewisiadau â rhywun sy'n gadael eu swydd cyn ymddeol, heblaw na fedrwch ddechrau cael eich buddion gohiriedig fel pensiwn nes ichi adael eich swydd. Os ydych chi'n ailymuno â'r cynllun, ni chewch gyfuno eich buddion gohiriedig gyda'r cofnod pensiwn a gaiff ei greu pan fyddwch yn ail-ymuno. Yn lle hynny, bydd gennych ddwy gronfa o fuddion pensiwn ar wahân.

Os ydych yn optio allan, gallwch optio'n ôl i mewn i'r cynllun ar unrhyw adeg cyn troi'n 75 oed, cyn belled â'ch bod yn gymwys i ymuno â'r cynllun.

Os ydych yn dewis aros allan o'r cynllun, bydd eich cyflogwr fel arfer yn eich cofrestru'n ôl yn y Cynllun bob tua thair blynedd o'r dyddiad mae'n rhaid iddynt ddilyn rheolau cofrestru awtomatig (cyn belled â'ch bod yn gymwys yn rhinwedd eich swydd.) Mae rhywun yn gymwys yn rhinwedd eu swydd os ydynt dros 22 oed, yn iau nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac yn ennill mwy na £10,000 y flwyddyn.

Gall eich cyflogwr ddewis peidio â'ch cofrestru chi'n awtomatig:

- os oeddech wedi optio allan o'r Cynllun llai na deuddeg mis cyn y dyddiad y bydddech wedi cael eich cofrestru'n awtomatig yn y swydd, neu
- os ydych chi neu eich cyflogwr yn rhoi rhybudd i ddod â'ch swydd i ben cyn neu yn fuan ar ôl y dyddiad cofrestru awtomatig, neu
- os oes gan eich cyflogwr sail resymol i gredu bod gennych, ar yr hyn a fyddai wedi bod y dyddiad y byddent wedi eich cofrestru'n awtomatig, gynllun Diogelu Sylfaenol, Diogelu Uwch, Diogelu Sefydlog, Diogelu Sefydlog 2014, Diogelu Unigol 2014, Diogelu Sefydlog 2016 neu Ddiogelu Unigol 2016.

Faint ydw i'n ei dalu?

Mae eich cyfradd cyfrannu'n ddibynnol ar eich cyflog. Mae'r gyfradd rhwng 5.5% a 12.5% o'ch tâl pensiynadwy ar hyn o bryd. Os dewiswch dalu i mewn i adran 50:50 y cynllun, bydddech yn talu hanner y cyfraddau isod. Mae'r gyfradd rydych chi'n ei thalu'n dibynnu ar ba fand cyflog sy'n berthnasol i chi. Pan ymunwch chi, a phob mis Ebrill wedi hynny, bydd eich cyflogwr yn didynnu'r gyfradd gyfrannu gywir gennych yn seiliedig ar eich cyflog. Os yw eich cyflog yn newid yn ystod y flwyddyn, gallai eich cyflogwr benderfynu adolygu eich cyfradd gyfrannu.

Dyma'r bandiau cyflog a'r cyfraddau sy'n berthnasol o fis Ebrill 2025.

Tabl 1: Bandiau cyfrannu ar gyfer 2025/2026

Eich cyflog gwirioneddol gros	Cyfradd gyfrannu ar gyfer y brif adran	Cyfradd gyfrannu ar gyfer yr adran 50:50
Hyd at £17,800	5.50%	2.75%
£17,801 i £28,000	5.80%	2.90%
£28,001 i £45,600	6.50%	3.25%
£45,601 i £57,700	6.80%	3.40%
£57,701 i £81,000	8.50%	4.25%
£81,001 i £114,800	9.90%	4.95%
£114,801 i £135,300	10.50%	5.25%
£135,301 i £203,000	11.40%	5.70%
£203,001 +	12.50%	6.25%

Mae'r bandiau cyflog yn newid bob mis Ebrill. Mae'n bosibl y bydd y Llywodraeth yn adolygu'r cyfraddau'r cyfrannu a'u haddasu yn y dyfodol.

Ydw i'n cael rhyddhad treth?

Fel aelod o'r Cynllun, os ydych yn ennill digon i dalu treth incwm, bydd eich cyfraniadau pensiwn yn destun rhyddhad treth pan y'u didynnir o'ch cyflog pensiynadwy.

Os nad ydych chi'n ennill digon i dalu treth, dan y rheolau newydd o flwyddyn dreth 2024/2025, gallech fod yn gymwys am daliad atodol gan Gyllid a Thollau EF. Bydd y taliad hwn yn gyfystyr â chyfanswm y rhyddhad treth y byddech wedi'i dderbyn pe baech yn dalwr treth cyfradd sylfaenol. Bydd Cyllid a Thollau ei Fawrhydi yn cysylltu â phobl am y taliadau atodol hyn o 2026.

Mae cyfyngiadau ar swm y rhyddhad treth sydd ar gael ar gyfraniadau pensiwn. Os bydd gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu £60,000 neu fwy mewn un flwyddyn dreth, sydd uwchlaw'r lwfans blynyddol safonol, mae'n bosib y bydd yn rhaid ichi dalu tâl treth. Ni fydd y lwfans blynyddol yn effeithio ar y mwyafrif o bobl.

Cyfraniadau

A yw fy nghyflogwr yn cyfrannu?

Eich cyflogwr sy'n talu gweddill y gost o ddarparu eich buddion yn y Cynllun ar hyn o bryd. Gwneir adolygiad annibynnol bob tair blynedd i gyfrifo'r swm y dylai'ch cyflogwr ei gyfrannu at y cynllun.

A oes hyblygrwydd i dalu llai o gyfraniadau?

Oes, mae dewis o'r enw 50:50. Yn yr adran 50:50, rydych chi'n talu hanner y cyfraniadau arferol ac yn casglu hanner y pensiwn arferol yn ystod y cyfnod rydych yn talu cyfraniadau llai. Gweler yr adran sy'n sôn am [Hyblygrwydd i dalu llai](#).

A fedraf i dalu cyfraniadau ychwanegol i gynyddu fy muddion?

Gallwch gynyddu eich buddion drwy:

- dalu cyfraniadau pensiwn ychwanegol i brynu pensiwn ychwanegol yn y Cynllun, neu
- dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i'r Cynllun.

Gweler yr adran sy'n sôn am [Hyblygrwydd i dalu mwy](#).

Ailymuno â'r Cynllun

Os ydych yn ailymuno â'r Cynllun a bod gennych fuddion gohiriedig mewn un o gronfeydd y Cynllun yng Nghymru neu Loegr, bydd eich buddion gohiriedig fel arfer yn uno'n awtomatig â'ch cofnod pensiwn newydd. Bydd gennych ddeuddeg mis ar ôl ailymuno â'r cynllun i

benderfynu cyfuno pensiynau neu beidio. Gallai eich cyflogwr roi mwy o amser i chi benderfynu.

Mae rheolau gwahanol yn berthnasol os oes gennych fuddion yn un o gronfeydd y Cynllun yng Nghymru neu Loegr oherwydd eich bod wedi optio allan o'r cynllun ar 11 Ebrill 2015 neu ar ôl hynny. Ni allwch uno'r buddion hynny â'ch cofnod pensiwn newydd. Byddant yn aros fel buddion gohiriedig ar wahân.

Os ydych yn ailymuno â'r Cynllun yng Nghymru neu Loegr a bod gennych ad-daliad wedi'i rewi (ad-daliad o gyfraniadau nad ydych wedi'i gymryd eto), mae'n rhaid i hwn gael ei uno gyda'ch cofnod pensiwn newydd os oes llai na phum mlynedd wedi bod ers y dylech fod wedi cymryd yr ad-daliad.

Allaf i drosglwyddo pensiynau i mewn nad ydynt yn rhan o'r Cynllun?

Os buoch yn talu i mewn i gynllun pensiwn arall nad yw'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol na'r Cynllun cyfatebol yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, efallai y gallwch drosglwyddo eich pensiynau blaenorol i'r Cynllun. Mae gennych ddeuddeg mis wedi'r dyddiad y byddwch yn ymuno â'r Cynllun i ddewis trosglwyddo eich pensiynau blaenorol (oni bai fod eich cyflogwr yn rhoi mwy o amser i chi). Ni allwch drosglwyddo pensiwn sydd eisoes yn cael ei dalu i chi.

Beth os ydw i'n cael pensiwn o'r Cynllun yn barod?

Os ydych chi eisoes yn cael pensiwn o'r cynllun, gallai eich pensiwn gael ei effeithio os:

- gwnaethoch gasglu rhywfaint neu gyfanswm eich pensiwn yn y Cynllun cyn 1 Ebrill 2014, ac os
- ydych yn cael eich ailgyflogi ym maes llywodraeth leol gan gyflogwr sy'n cynnig aelodaeth o'r Cynllun.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth gronfa'r Cynllun sy'n talu eich pensiwn am eich swydd newydd. Dylech wneud hyn p'un a ydych yn ymuno â'r cynllun yn eich swydd newydd neu beidio. Bydd y gronfa honno'n rhoi gwybod i chi a yw pensiwn sy'n cael ei dalu i chi'n cael ei effeithio mewn unrhyw ffordd.

Os ydych chi eisoes yn cael pensiwn o'r cynllun, gallai eich pensiwn gael ei effeithio os:

- gwnaethoch gasglu rhywfaint neu gyfanswm eich pensiwn yn y Cynllun ar ôl 31 Mawrth 2014, ac os
- ydych yn cael pensiwn afiechyd Haen 3 y Cynllun (y math sy'n cael ei atal os ydych mewn unrhyw swydd â chyflog)

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth gronfa'r Cynllun sy'n talu eich pensiwn am eich swydd newydd. Dylech wneud hyn p'un a ydych yn ymuno â'r cynllun yn eich swydd newydd neu beidio. Byddant yn rhoi gwybod os dylid atal y pensiwn afiechyd a delir i chi.

Os nad yw'r pensiwn rydych chi'n ei gael o ganlyniad i ymddeol ar sail afiechyd, ni fydd yn effeithio ar y pensiwn sy'n cael ei dalu i chi.

Hyblygrwydd wrth Gyfrannu

Fe gewch chi wybod mwy am y Cynllun yn y **fideos i aelodau: 'Pensions Made Simple'**. Mae 'Gofalu am eich pensiwn' yn cyflwyno ffyrdd i chi allu talu llai o gyfraniadau neu gyfraniadau ychwanegol.

Hyblygrwydd i dalu llai

Pan ymunwch chi â'r Cynllun fe gewch eich rhoi yn y brif ran. Ar ôl ichi ymuno, fodd bynnag, gallwch ddewis newid i'r adran 50:50 ar unrhyw adeg. Gwneir hyn drwy lenwi **ffurflen 50:50**.

Yn yr adran 50:50 rydych chi'n talu hanner eich cyfraniadau arferol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol mewn cyfnodau anodd yn ariannol gan ei fod yn caniatáu i chi aros yn y cynllun a chasglu buddion pensiwn gwerthfawr, yn lle optio allan o'r cynllun.

Gallwch lawrlwytho'r **ffurflen 50:50** o'r adran **ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan, neu gofynnwch i Gronfa Bensiynau Clwyd anfon un atoch drwy'r post. Os ydych chi'n talu cyfraniadau i'r Cynllun yn rhinwedd mwy nag un swydd, mae arnoch angen nodi pa swyddi y dymunwch eu symud i'r adran 50:50.

Os dewiswch gyfrannu yn yr adran 50:50, fe gewch eich symud i'r adran honno yn y cyfnod tâl nesaf. Byddech wedyn yn dechrau talu hanner eich cyfraniadau arferol a chasglu hanner eich pensiwn arferol tra byddwch yn yr adran honno. Wrth lenwi'r ffurflen 50:50, mae'n rhaid i'ch cyflogwr roi gwybod ichi sut fydd symud yn effeithio ar eich buddion pensiwn yn y Cynllun.

Pe baech yn marw yn y swydd a chithau yn yr adran 50:50, cyfrifir y grant marwolaeth ac unrhyw bensiynau goroeswyr fel petaech ym mhrif adran y Cynllun. Os ydych yn cael pensiwn afiechyd sy'n cynnwys swm o bensiwn ychwanegol, bydd swm y pensiwn ychwanegol sy'n cael ei ychwanegu i'ch cofnod pensiwn yn cael ei gyfrifo fel pe baech ym mhrif adran y cynllun.

Bwriedir i'r adran 50:50 fod yn drefniant tymor byr mewn cyfnodau anodd yn ariannol. Oherwydd hyn, mae'n rhaid i'ch cyflogwr eich rhoi yn ôl ar brif adran y cynllun dan y rheolau cofrestru awtomatig. Os dymunwch aros yn yr adran 50:50 ar yr adeg honno, bydd yn rhaid ichi lenwi ffurflen 50:50 newydd.

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr eich rhoi yn ôl ar y brif adran bob tair blynedd. Gallwch ddewis symud rhwng y brif adran a'r adran 50:50 cynifer o weithiau ag y dymunwch

Hyblygrwydd i dalu mwy

Mae amryw ffyrdd ichi greu buddion pensiwn ychwanegol ar ben y buddion safonol rydych chi'n eu casglu fel aelod o'r Cynllun.

Gallwch wella eich buddion ymddeol trwy dalu:

- cyfraniadau pensiwn ychwanegol i brynu pensiwn ychwanegol yn y Cynllun,

- cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol wedi'u trefnu drwy'r Cynllun (Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol mewnol),
- cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ar wahân i gynllun o'ch dewis,
- cyfraniadau at gynllun pensiwn budd-ddeiliad neu pensiwn personol.

Fe gewch chi ryddhad treth ar gyfraniadau rydych yn eu talu i gynllun pensiwn yn y Deyrnas Gyfunol, hyd derfynau Cyllid a Thollau.

Manylir ynghylch y ddau ddewis cyntaf yn ein ffeithlen Cynyddu eich Buddion Pensiwn yn yr adran **ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan.

Gall eich cyflogwr ddewis talu i'ch cynllun CGY. Gelwir hyn yn CGY lle rhennir costau. Bydd rhai cyflogwyr yn cynnig cynllun CGY lle rhennir costau fel trefniant aberthu cyflog. Os ydynt yn gwneud hyn, byddech yn elwa o arbedion cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol ar y cyfraniadau CGY. Byddai eich cyflogwr hefyd yn elwa o gyfraniadau yswiriant gwladol is. Gwiriwch â'ch cyflogwr a ydynt yn cynnig cynllun aberthu cyflog ar gyfer cyfraniadau CGY.

Efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol cyn penderfynu talu mwy.

Eich Pensiwn

Mae eich buddion yn y Cynllun yn cynnwys:

- pensiwn sy'n cynyddu bob blwyddyn yn unol â chostau byw am weddill eich oes, a
- dewis i gyfnewid rhan o'ch pensiwn am gyfandaliad di-dreth y byddwch chi'n ei gael pan gymerwch eich pensiwn

Sut cyfrifir fy mhensiwn?

Buddion a gasglwyd ers 1 Ebrill 2014

Bob blwyddyn, rydych chi'n casglu pensiwn gwerth 1 rhan o 49 o swm eich tâl pensiynadwy (a chyflog pensiynadwy tybiedig) a gawsoch chi yn y flwyddyn honno yn y cynllun, os ydych chi ym mhrif ran y cynllun. Rydych chi'n casglu pensiwn gwerth hanner hynny (1 rhan o 98) os ydych chi yn yr adran 50:50.

Bydd eich cyflogwr yn rhoi gwybod i ni beth yw'r cyflog blyneddol rydych chi wedi talu cyfraniadau ar ei gyfer o un mis Ebrill i'r nesaf. Ychwanegir swm y pensiwn a gasglwyd yn ystod y flwyddyn yn y cynllun at eich cofnod pensiwn ac fe gaiff ei ailbrisio ym mis Ebrill ar ôl pob blwyddyn yn y cynllun, fel bod eich pensiwn yn tyfu gyda chostau byw. Mae blwyddyn y cynllun yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth.

Enghraifft o brif adran y Cynllun

Blwyddyn y cynllun	Pensiwn ddechrau'r flwyddyn	Cyflog pensiynadwy gros a chyfradd cronni	Pensiwn (ar gyfer y flwyddyn honno)	Pensiwn (a gasglwyd hyd yma)	Cynnydd ar sail chwyddiant	Pensiwn ddiwedd y flwyddyn
Blwyddyn 1	£0.00	£19,600 ÷ 49	£400.00	£400.00	1.20%	£404.80
Blwyddyn 2	£404.80	£23,129 ÷ 49	£472.02	£876.82	-0.10%	£875.94
Blwyddyn 3	£875.94	£25,000 ÷ 49	£510.20	£1,386.14	1.00%	£1,400.00

Byddwch yn dal i gronni eich pensiwn fel hyn bob blwyddyn nes y byddwch naill ai'n ymdeol, yn gadael y swydd neu'n optio allan o dalu cyfraniadau pensiwn.

Pa gyflog a ddefnyddir yn sail i gyfrifo fy mhensiwn?

Mae'r swm a ychwanegir at eich cofnod pensiwn ddiwedd pob blwyddyn yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy. Dyma'r swm o gyflog y talwch chi gyfraniadau pensiwn ar ei gyfer.

Os ydych, yn ystod blwyddyn y Cynllun, wedi bod:

- yn absennol ar gyflog contract is neu ddim cyflog o gwbl oherwydd salwch neu anaf
- yn absennol am reswm perthnasol yn gysylltiedig â phlant
- yn absennol ar wasanaeth â'r lluoedd wrth gefn

yna, ar gyfer y cyfnod hwnnw y buoch chi'n absennol, mae eich pensiwn yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy tybiedig. Os oes angen, bydd eich cyflogwr yn cyfrifo swm o gyflog fel y gwyddom ar beth i seilio gwerth eich pensiwn a'n bod yn sicrhau nad yw'ch absenoldeb yn effeithio ar eich pensiwn. Gelwir y swm hwnnw o gyflog yn gyflog pensiynadwy tybiedig.

Buddion a gasglwyd cyn 1 Ebrill 2014

Ar 1 Ebrill 2014, newidiodd y Cynllun o fod yn gynllun cyflog terfynol i fod yn un enillion cyfartalog gyrfa wedi'u hailbrisio (cynllun CARE). Os ymunoch chi â'r Cynllun cyn hynny, byddwch wedi cynilo buddion yn y cynllun cyflog terfynol. Cyfrifir y buddion hynny'n wahanol ar sail eich aelodaeth hyd 31 Mawrth 2014 a'ch cyflog terfynol.

Ar gyfer aelodaeth a gasglwyd hyd 31 Mawrth 2008: fe gewch chi bensiwn gwerth 1 rhan o 80 o'ch cyflog terfynol yn ogystal â chyfandaliad di-dreth awtomatig gwerth teirgwaith cymaint â'ch pensiwn.

Ar gyfer aelodaeth a gasglwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014: fe gewch chi bensiwn gwerth 1 rhan o 60 o'ch cyflog terfynol. Nid oes cyfandaliad awtomatig ar gyfer

aelodaeth a gasglwyd ers Mawrth 2008, ond gallwch ddewis cyfnewid rhywfaint o'ch pensiwn am gyfandaliad.

Tanategu

Pan newidiodd y Cynllun o fod yn un cyflog terfynol i gyfartaledd gyrfa yn 2014, amddiffynnwyd aelodau hŷn rhag y newidiadau. Dyfarnodd y llysoedd y gwahaniaethwyd yn erbyn aelodau iau gan na chawsant eu hamddiffyn yn yr un modd. Newidiodd rheolau'r Cynllun ym mis Hydref 2023 i gael gwared ar y gwahaniaethu. At ei gilydd, gelwir y newidiadau hynny'n 'ddatrysiad McCloud'. Drwy hyn fe grëwyd trefniant tanategu i amddiffyn yr holl aelodau.

Mae'r trefniant tanategu'n eich amddiffyn chi yn y Cynllun os:

- oeddech chi'n aelod o'r Cynllun neu gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall cyn 1 Ebrill 2012
- casgloch chi fuddion yng nghyfnod y datrysiad rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022
- oeddech chi'n iau na 65 oed yn ystod cyfnod y datrysiad, ac
- os nad oes gennych fwch mewn gwasanaeth sy'n eich digymhwyso. Mae bwch sy'n digymhwyso'n gyfnod o fwy na phum mlynedd pan nad oeddech chi'n aelod o'r Cynllun nac unrhyw gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall.

Nid yw'r trefniant tanategu ond yn amddiffyn pensiynau a gasglwyd yn ystod cyfnod y datrysiad rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022. Daeth y trefniant amddiffyn i ben yn gynt os cyrhaeddoch chi'r oedran ymddeol arferol ar gyfer cyflog terfynol (65, fel arfer) cyn 31 Mawrth 2022.

Nid oes angen ichi benderfynu na chymryd unrhyw gamau cyfreithiol i fod yn gymwys ar gyfer y trefniant tanategu. Os ydych chi'n gymwys, fe'i gweithredir yn awtomatig.

Os ydych wedi'ch amddiffyn pan gymerwch eich pensiwn o'r Cynllun, bydd eich cronfa bensiynau'n cadarnhau a fyddai wedi bod yn uwch dan y cynllun cyflog terfynol. Os felly, bydd eich pensiwn yn cynyddu. Ni fydd pensiynau'r rhan helaeth o aelodau'n cynyddu. Y rheswm am hynny yw bod y rhan helaeth o aelodau'n casglu mwy o bensiwn yn y cynllun presennol nag y byddent yn y cynllun cyflog terfynol.

Ceir ychwaneg o wybodaeth am danategu yn yr [adran am Ddatrysiad McCloud](#) ar ein gwefan.

Gadael y Cynllun cyn ichi ymddeol

Ad-dalu cyfraniadau

Os ydych yn gadael eich swydd cyn ichi ymddeol a chithau wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun am lai na dwy flynedd, bydd gennych ddau ddewis:

- hawlio ad-daliad o'ch cyfraniadau (wedi tynnu 20% o dreth) ar yr amod nad oes gennych unrhyw fuddion eraill yn y Cynllun yng Nghymru neu Loegr, neu

- efallai y gallwch drosglwyddo eich buddion gohiriedig i gynllun pensiwn arall (ni allwch eu trosglwyddo os oes llai na 12 mis tan eich oedran ymddeol arferol).

Os ydych chi'n gadael neu'n optio allan cyn pen dwy flynedd wedi ymuno â'r Cynllun, gallwch gael ad-daliad o'ch cyfraniadau fel arfer. Tynnir 20% ar gyfer y dreth. Mae'n rhaid i'ch cronfa ad-dalu'r cyfraniadau cyn pen pum mlynedd wedi ichi roi'r gorau i dalu cyfraniadau neu erbyn ichi droi'n 75, p'un bynnag a ddaw gyntaf. Os nad ydych yn hawlio'r ad-daliad ac wedyn yn ailymuno â'r Cynllun, ni fydd yn daladwy ichi mwyach. Ychwanegir y buddion at eich cofnod pensiwn newydd yn lle hynny.

Buddion gohiriedig

Os ydych yn gadael eich swydd cyn ichi ymddeol a chithau wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun am fwy na dwy flynedd, byddwch wedi casglu pensiwn i'w gymryd ar ôl ichi ymddeol. Bydd gennych ddau ddewis:

- cadw eich buddion yn y Cynllun. Gelwir y rhain yn fuddion gohiriedig a byddant yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â chostau byw, neu
- efallai y gallwch drosglwyddo eich buddion gohiriedig i gynllun pensiwn arall (ni allwch eu trosglwyddo os oes llai na 12 mis tan eich oedran ymddeol arferol).

Cyfrifir eich buddion gohiriedig yn y modd a ddisgrifir yn yr adran: [Sut cyfrifir fy mhensiwn?](#) Tra bydd eich buddion pensiwn wedi'u gohirio, byddant yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â chostau byw.

Fel arfer, telir eich buddion gohiriedig heb eu gostwng pan fyddwch yn cyrraedd Oedran Pensiwn Arferol, oni bai:

- eich bod yn trosglwyddo eich buddion gohiriedig i gynllun pensiwn arall
- y telir eich buddion yn gynnar oherwydd afiechyd. Gellid talu'ch buddion yn llawn os:
 - rydych yn barhaol yn methu â chyflawni'r swydd roeddech yn ei gwneud pan adawoch chi'r Cynllun, ac
 - eich bod yn annhebygol o allu gwneud unrhyw waith am gyflog am dair blynedd wedi'r dyddiad y gwnaethoch gais i gymryd eich pensiwn o'r Cynllun oherwydd afiechyd (neu erbyn eich oedran ymddeol arferol os yw hynny'n gynt)
- eich bod yn dewis derbyn eich buddion gohiriedig yn gynnar ar ôl troi'n 55 mlwydd oed
- eich bod yn dewis peidio â derbyn eich buddion gohiriedig wrth gyrraedd eich Oedran Pensiwn Arferol ac yn gohirio derbyn eich pensiwn tan yn ddiweddarach. Mae'n rhaid talu'ch buddion cyn i chi droi'n 75 oed.

Gallai buddion sy'n cael eu talu'n gynt na'ch oedran ymddeol arferol, ac eithrio ar sail afiechyd parhaol, gael eu gostwng i gyfrif am eu talu'n gynnar a gan y bydd eich pensiwn yn cael ei dalu am fwy o amser. Bydd buddion sy'n cael eu talu ar ôl eich oedran ymddeol arferol yn cael eu cynyddu gan eich bod yn eu cymryd yn hwyrach na'r disgwyl.

Cadwch mewn cysylltiad: cofiwch roi gwybod i'ch Cronfa os ydych yn symud tŷ, er mwyn i chi ddal i gael gohebiaeth ganddynt am eich pensiwn.

Beth os oes gen i ddwy swydd neu fwy yn y Cynllun?

Os:

- oes gennych ddwy swydd neu fwy lle'r ydych yn talu i mewn i'r Cynllun ar yr un pryd
- rydych yn gadael un swydd neu fwy, ond nid pob un ohonynt, ac
- eich bod yn gymwys i dderbyn buddion gohiriedig yn rhinwedd y swydd (neu swyddi) sydd gennych ar ôl

trosglwyddir eich buddion gohiriedig o'r swydd sydd wedi dod i ben yn awtomatig i'r cofnod pensiwn gweithredol ar gyfer y swydd rydych yn dal ynddi, oni bai eich bod yn dewis eu cadw ar wahân. Os dewiswch gadw eich buddion gohiriedig ar wahân, mae'n rhaid i chi wneud hynny cyn pen 12 mis ar ôl gadael y swydd honno, oni bai bod eich cyflogwr yn rhoi mwy o amser i chi. Os nad oes gennych hawl i fuddion gohiriedig o'r swydd (neu swyddi) a adawoch chi, ni chewch ad-daliad o'ch cyfraniadau ac mae'n rhaid i chi drosglwyddo eich buddion i'r cofnod pensiwn ar gyfer y swydd rydych yn dal ynddi.

Trosglwyddo eich buddion

Os ydych yn gadael y Cynllun a bod gennych hawl i fuddion gohiriedig neu ad-daliad, fel arfer gallwch drosglwyddo gwerth cyfatebol eich buddion pensiwn i gynllun pensiwn arall neu gynllun pensiwn cyflogwr newydd. Gallai hynny gynnwys cynllun pensiwn dramor sy'n bodloni amodau Cyllid a Thollau.

Ni allwch drosglwyddo eich buddion gohiriedig os rydych:

- yn gadael llai na blwyddyn cyn eich oedran ymddeol arferol
- yn dewis trosglwyddo llai na 12 mis cyn eich oedran ymddeol arferol
- yn dal yn cyfrannu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol drwy swydd arall, neu
- yn cael pensiwn o'r Cynllun

Bydd ar eich darparwr pensiwn newydd angen dyfynbris gwerth trosglwyddo a bydd eich Cronfa'n gwarantu'r swm dan sylw am 3 mis.

Efallai y bydd modd ichi hefyd drosglwyddo eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i gynllun pensiwn gwahanol. Mae'r amodau ar gyfer trosglwyddo Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol yn wahanol i'r rhai sydd wedi'u nodi uchod. Gallwch drosglwyddo eich Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol heb drosglwyddo eich prif fuddion yn y Cynllun.

Os ydych yn gadael y Cynllun gyda buddion gohiriedig ac wedyn yn ailymuno â'r Cynllun, bydd eich buddion gohiriedig fel arfer yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cofnod pensiwn gweithredol ar gyfer eich swydd newydd, oni bai eich bod yn dewis eu cadw ar wahân. Os dymunwch gadw eich buddion gohiriedig ar wahân, fel arfer mae'n rhaid ichi benderfynu hynny cyn pen 12 mis ar ôl ailymuno â'r Cynllun. Efallai y gwnaiff eich cyflogwr roi mwy o amser ichi benderfynu.

Os rhwch chi'r gorau i dalu cyfraniadau i'r Cynllun a bod gennych hawl i ad-daliad llawn o'ch cyfraniadau, a'ch bod:

- yn dewis peidio â chymryd ad-daliad o'ch cyfraniadau, ac
- yn ailymuno â'r Cynllun

yna mae'n rhaid uno'r ad-daliad gohiriedig hwn â'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd.

Trosglwyddo eich buddion i gynllun cyfraniadau diffiniedig

Gall aelodau cynlluniau cyfraniadau diffiniedig sydd dros 55 oed gymryd arian o'u cronfa bensiynau mewn gwahanol ffyrdd. Gelwir y rhain yn fuddion hyblyg.

Nid yw'r Cynllun yn gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig, mae'n gynllun â buddion diffiniedig. Nid yw rheolau'r buddion hyblyg yn berthnasol i'ch buddion CPLIL. Os rhwch chi'r gorau i dalu cyfraniadau i'r Cynllun a chithau wedi bod yn aelod am dri mis neu fwy, fodd bynnag, efallai y bydd gennych hawl i drosglwyddo eich pensiwn yn y Cynllun i gynllun cyfraniadau diffiniedig sy'n darparu buddion hyblyg. Ni allwch drosglwyddo eich pensiwn ond os ydych yn dewis trosglwyddo o leiaf blwyddyn cyn eich oedran ymddeol arferol. Ni fydd gennych hawl i drosglwyddo os ydych yn ymddeol ar unwaith oherwydd diswyddo, arbedion effeithlonrwydd busnes neu afiechyd.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid ichi geisio cyngor ariannol annibynnol os yw gwerth eich buddion pensiwn yn y Cynllun (ac eithrio Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol) yn fwy na £30,000. Nid yw'n ofynnol i chi geisio cyngor ariannol annibynnol os yw gwerth eich buddion yn llai na £30,000. Serch hynny, nid yw trosglwyddo eich hawliau pensiwn yn benderfyniad hawdd. Gallai ceisio cymorth gan ymgynghorydd ariannol annibynnol eich helpu i wneud y penderfyniad iawn, gan gofio nad oes dim troi'n ôl.

Mae pedwar prif ddewis i aelodau dros 55 mlwydd oed, sydd mewn cynllun cyfraniadau diffiniedig sy'n darparu buddion hyblyg:

- prynu blwydd-dal
- tynnu i lawr - mynediad hyblyg
- cymryd nifer o symiau arian parod ar adegau gwahanol
- cymryd yr holl arian ar unwaith fel arian parod.

Twyll pensiynau

Rydych chi wedi gweithio'n galed i gronni eich pensiwn CPLIL. Gallai twyllwyr geisio cael gafael ar eich cynilion pensiwn.

Mae twyll yn anodd i'w ganfod ac yn aml iawn mae wedi ei guddio gan wefannau sy'n edrych fel rhai dilys, adborth gan gwsmeriaid a deunyddiau sy'n gwneud iddynt ymddangos fel rhai go iawn.

Fe all y Grŵp Gweithredu ar Dwyll Pensiwn eich helpu chi i ddarganfod yr arwyddion a diogelu eich hun rhag twyll. Mae'r Grŵp yn dasglu aml-asiantaeth gyda gorfodi'r gyfraith, y

llywodraeth a diwydiant yn cydweithio i fynd i'r afael â thwyll pensiynau. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Dwyll Pensiwn wedi llunio rhestr wirio y gallwch ei defnyddio os y cysylltir â chi ynglŷn â'ch pensiwn:

Cam 1: A yw'r cynnig yn annisgwyl?

Mae darparwyr pensiwn cyfreithlon yn annhebygol iawn o gysylltu â chi yn annisgwyl ynglŷn â'ch pensiwn. Byddwch yn wiliadwus o gynigion adolygiadau pensiwn rhad ac am ddim a/neu addewidion o daliadau uchel/sicr.

Cam 2: A ydych chi wedi gwirio gyda phwy rydych chi'n delio â nhw??

Mae Cofrestr Gwasanaethau Ariannol ar wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol y gallwch ei gwirio i sicrhau fod gan unrhyw un sy'n cynnig cyngor neu wasanaethau i chi awdurdod i wneud hynny.

Caiff cwmni sy'n esgus ei fod yn gwmni awdurdodedig ei adnabod fel 'cwmni clôn' ac mae'n bosibl fod ganddynt wefan glôn sy'n edrych yn union yr un fath ag un go iawn. **Awgrym:** gwiriwch eu manylion cyswllt yn fanwl yn erbyn y gofrestr i weld os ydynt yn cyfateb. Sicrhewch bob amser fod cwmni wedi ei awdurdodi â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu ni fyddwch yn cael eich amddiffyn gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol neu'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol os yw pethau yn mynd o'i le.

Gwefan: register.fca.org.uk (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)
Rhif ffôn: 0800 111 6768

Cam 3: Arhoswch a meddyliwch. Ydych chi'n cael eich rhuthro neu a oes pwysau'n cael ei roi arnoch chi?

Mae pwysau i weithredu'n gyflym neu fe fyddwch ar eich colled yn aml yn arwydd o rybudd. Cymrwch amser i wneud yr holl wiriadau rydych angen eu gwneud a chofiwch, os yw'n swnio'n rhy dda i fod yn wir yna mae'n debyg ei fod.

Cam 4: A ddylech chi gael cyngor neu arweiniad diduedd?

Helpwr Arian

Mae gwybodaeth ac arweiniad diduedd a rhad ac am ddim ar gael ar-lein, dros y ffôn a thrwy'r gwasanaeth gwe-sgwrsio.

Gwefan: <https://www.moneyhelper.org.uk/cy>
Rhif ffôn: 0800 011 3797

Ymgynghorwyr ariannol

Os y gallwch mae'n syniad da i siarad ag ymgynghorydd ariannol. Yn aml mae symiau mawr o arian yn y fantol ac fe fyddant yn gallu eich helpu chi i wneud y penderfyniad cywir i chi. **Awgrym:** gwiriwch fod unrhyw ymgynghorydd yr ydych yn dewis ei ddefnyddio wedi ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Arhoswch! Meddyliwch am Dwyll

Dysgwch fwy am sut i adnabod ac osgoi twyll. Gwefan: stopthinkfraud.campaign.gov.uk (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Os ydych yn amau twyll, rhowch wybod amdano.

Gallwch roi gwybod i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol am gwmni anawdurdodedig neu dwyll gan ddefnyddio'r [ffurflen adrodd ar-lein](#) neu ffonio **0800 111 6768**. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Os ydych yn amau twyll, rhowch wybod i Action Fraud drwy ffonio **0300 123 2040** neu fynd i'r wefan hon www.actionfraud.police.uk (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Diogelwch eich pensiwn gyda ScamSmart. I gael gwybod mwy ewch i
www.fca.org.uk/scamsmart (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Ymddeol

Fe gewch chi wybod mwy am y Cynllun yn y [fideos i aelodau: 'Pensions Made Simple'](#). Mae 'Bywyd ar ôl gwaith' yn sôn am eich dewisiadau pan gymerwch eich pensiwn.

Pryd allaf i ymddeol a chymryd fy mhensiwn o'r Cynllun?

Mae'n rhaid ichi fod wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun am o leiaf dwy flynedd i gasglu pensiwn. Os buoch chi'n aelod am ddwy flynedd neu fwy, gallwch ddewis ymddeol a chymryd eich pensiwn o'r Cynllun ar unrhyw adeg rhwng 55 a 75 oed.

Mae'r oedran ymddeol arferol yn y Cynllun yn gysylltiedig â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gydag isafswm o 65 mlwydd oed. Os bydd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn newid yn y dyfodol, bydd hynny'n newid eich oedran ymddeol arferol ar gyfer buddion y Cynllun a gronnir ar ôl 31 Mawrth 2014.

Os gadewch eich swydd o'ch gwirfodd cyn eich oedran ymddeol arferol, wrth gyrraedd yr oedran hwnnw neu'n ddiweddarach, gallwch ohirio cymryd eich buddion ond mae'n rhaid ichi eu cymryd cyn troi'n 75 oed. Os cymerwch eich pensiwn ar ôl eich oedran ymddeol arferol, bydd yn cael ei dalu ar gyfradd uwch oherwydd ei dalu'n hwyrach na'r disgwyl.

Os oeddech yn aelod o'r Cynllun cyn 1 Ebrill 2014, byddwch wedi cynilo buddion yn y cynllun cyflog terfynol. Mae'r oedran ymddeol yn wahanol ar gyfer y buddion hynny. I'r rhan fwyaf o bobl, 65 yw'r oedran hwnnw.

Os ydych wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun am ddwy flynedd neu fwy a bod eich cyflogwr yn dweud bod yn rhaid ichi ymddeol o ganlyniad i golli eich swydd, arbedion busnes neu afiechyd parhaol, caiff eich pensiwn yn y Cynllun ei dalu i chi ar unwaith.

A fydd fy mhensiwn yn llai os ydw i'n ymddeol yn gynnar?

Os dewiswch ymddeol cyn eich oedran ymddeol arferol, bydd eich buddion fel arfer yn llai oherwydd y byddant yn cael eu talu am gyfnod hwy. Cyfrifir eich buddion fel y nodir yn yr adran: [Sut caiff fy mhensiwn ei gyfrifo?](#) ac yna eu gostwng. Bydd swm y gostyngiad yn dibynnu ar ba mor gynnar rydych yn cymryd eich buddion. Os buoch chi'n talu cyfraniadau

i'r Cynllun ar unrhyw adeg rhwng 1 Ebrill 1998 a 30 Medi 2006, gallai rhywfaint o'ch buddion fod wedi'u diogelu rhag eu gostwng os yw Rheol 85 yn berthnasol i chi. Mae mwy o fanylion i'w gweld ar ein taflen ffeithiau ar Reol 85 yn **adran ffurflenni ac adnoddau** ein gwefan.

Beth os ydw i'n colli fy swydd drwy ddiswyddo neu arbedion effeithlonrwydd busnes?

Os ydych chi'n 55 oed neu'n hŷn, bydd gennych hawl i gael eich buddion yn y Cynllun ar unwaith a heb eu gostwng, cyn belled eich bod wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun am o leiaf dwy flynedd.

Byddai unrhyw bensiwn ychwanegol sy'n cael ei brynu drwy gyfraniadau pensiwn ychwanegol neu gyfraniadau pensiwn ychwanegol rhannu cost yn cael eu talu ar gyfradd ostyngol os ydych yn ymddeol cyn eich oedran ymddeol arferol. Os ydych wedi prynu pensiwn ychwanegol drwy gyfraniadau rheolaidd ychwanegol, telir y pensiwn ychwanegol hwnnw ar gyfradd is os ydych yn ymddeol cyn eich oedran ymddeol arferol cyn 1 Ebrill 2014, sef 65 oed i'r rhan fwyaf o bobl.

Beth sy'n digwydd os oes raid imi ymddeol yn gynnar oherwydd afiechyd?

Os oes raid i chi adael eich swydd oherwydd salwch, efallai y bydd eich buddion pensiwn yn gallu cael eu talu ichi ar unwaith.

I fod yn gymwys i ymddeol ar sail afiechyd:

- rhaid i chi fod wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun am o leiaf dwy flynedd, a
- rhaid i'ch cyflogwr, ar sail barn meddyg iechyd galwedigaethol annibynnol sydd wedi'i benodi ganddyn nhw, fod yn fodlon:
 - na fyddwch yn gallu gwneud eich swydd eich hun yn barhaol tan eich oedran ymddeol arferol, ac
 - nad ydych yn gallu gwneud gwaith am gyflog am y tro

Gellir talu buddion pensiwn afiechyd ar unrhyw adeg ac nid ydynt yn cael eu gostwng os ydynt yn cael eu talu'n gynnar. Yn wir, gallai eich buddion gynyddu gan eich bod yn ymddeol yn gynnar os ydych yn annhebygol o allu cael gwaith cyflogedig mewn tair blynedd ar ôl gadael. Mae mwy o fanylion i'w gweld ar ein taflen ffeithiau 'Ymddeol ar sail Afiechyd' yn **adran ffurflenni ac adnoddau** ein gwefan.

Allaf i ymddeol yn raddol?

Gelwir hyn yn ymddeoliad hyblyg. Os oes gan eich cyflogwr bolisi a'i fod yn cytuno i'ch cais, yna ar ôl ichi droi'n 55 oed ymlaen:

- os ydych wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun am o leiaf dwy flynedd, **ac**
- os ydych yn lleihau eich oriau neu'n symud i swydd gradd is

gallwch gymryd yr holl fuddion pensiwn rydych wedi'u casglu neu rywfaint ohonynt, er mwyn eich helpu i ddod i arfer ag ymddeol yn raddol. Mae'n rhaid i chi gymryd yr holl fuddion y gwnaethoch eu casglu cyn 1 Ebrill 2008.

Os ydych yn dewis ymddeoliad hyblyg cyn eich oedran ymddeol arferol, gallai eich buddion fod yn llai oherwydd eu talu'n gynnar, oni bai fod eich cyflogwr yn cytuno i hepgor y gostyngiad neu ran ohono. Os yw eich cyflogwr yn cytuno i ymddeoliad hyblyg, gallwch ddal i dderbyn eich cyflog o'ch swydd ar yr oriau llai neu raddfa is a thalu cyfraniadau i'r Cynllun. Mae hyn yn golygu y byddwch yn casglu mwy o fuddion yn y cynllun i'w cymryd pan fyddwch yn ymddeol yn llwyr. Mae ymddeoliad hyblyg yn cael ei gynnig yn ôl disgrisiwn eich cyflogwr ac mae'n rhaid iddynt nodi eu polisi'n ysgrifenedig.

Beth os ydw i'n parhau i weithio ar ôl cyrraedd fy oedran ymddeol arferol?

Os ydych chi'n dal i weithio ar ôl eich oedran ymddeol arferol, byddwch yn dal i dalu cyfraniadau i'r Cynllun ac yn casglu mwy o fuddion pensiwn. Pan fyddwch yn ymddeol, byddwch yn cael eich pensiwn, oni bai eich bod yn dewis gohirio ei gymryd. Mae'n rhaid talu'ch pensiwn i chi erbyn ichi droi'n 75 oed. Bydd eich pensiwn yn cael ei dalu ar gyfradd uwch gan y bydd yn cael ei dalu am gyfnod byrrach.

Sut mae fy mhensiwn yn cadw ei werth?

Os ydych yn ymddeol yn 55 oed neu wedyn, mae eich pensiwn yn y Cynllun yn cynyddu'n unol â chostau byw bob blwyddyn gydol eich ymddeoliad. Wrth i gostau byw gynyddu, bydd eich pensiwn yn cynyddu hefyd. Os ydych yn ymddeol ar sail afiechyd, bydd eich pensiwn yn cynyddu bob blwyddyn, faint bynnag yw eich oed.

Allaf i gyfnewid rhan o fy mhensiwn am gyfandaliad?

Pan fyddwch yn ymddeol cewch ddewis i newid rhywfaint o'ch pensiwn hwn yn gyfandaliad untro. Am bob £1 o bensiwn blyneddol rydych chi'n ei ildio, fe gewch chi gyfandaliad o £12.

Mae Cyllid a Thollau EF yn rhoi terfyn ar faint o gyfandaliad di-dreth y gallwch ei gymryd pan fydd eich pensiwn yn cael ei dalu i chi. Gelwir y terfyn hwn yn lwfans cyfandaliad. Ar hyn o bryd, y cyfandaliad mwyaf yw'r isaf o'r canlynol:

- 25% o werth cyfalaf eich buddion
- £268,275*
- £268,275* yn llai na chyfanswm y cyfandaliadau rydych chi wedi'u cymryd eisoes

*Os oes gennych chi warchodaeth Lwfans Oes ddilys, o bosibl y gallech gymryd cyfandaliad sy'n fwy na £268,275.

Bydd yn gyfandaliad di-dreth fel arfer, ond os ewch chi dros derfyn y lwfans cyfandaliad, bydd rhaid i chi dalu treth ar y swm uwchlaw'r terfyn ar eich cyfradd ymylol.

Mae cymryd cyfandaliad mwy yn lleihau eich pensiwn ond nid yw'n lleihau unrhyw bensiwn goroeswr sy'n daladwy ar ôl i chi farw i'ch gŵr, gwraig, partner sifil, partner sy'n cyd-fyw neu blentyn.

Bydd eich cronfa bensiynau'n rhoi mwy o wybodaeth ichi am y dewis i gyfnewid eich pensiwn am gyfandaliad pan fyddwch chi ar fin cymryd eich pensiwn o'r Cynllun. Dyna pryd fydd rhaid i chi wneud penderfyniad.

Cymryd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ar ffurf arian parod

Os ydych yn talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i'r Cynllun, efallai y gallwch gymryd eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ar ffurf cyfandaliad di-dreth. Gallwch wneud hynny:

- os rydych yn cymryd eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ar yr un pryd â'ch prif fuddion o'r Cynllun
- os yw eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a'ch cyfandaliad gyda'i gilydd yn llai na 25% o gyfanswm gwerth eich buddion o'r Cynllun (gan gynnwys eich cronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol) ac
- os nad yw cyfanswm y cyfandaliad yn fwy na'r terfyn o £268,275*. Os ydych wedi cymryd buddion pensiwn o'r blaen, ni ddylai'r cyfandaliad fod yn fwy na 25% o'r lwfans sydd gennych ar ôl.

Fe gewch chi fanylion am y dewis hwn ychydig cyn i chi gymryd eich pensiwn o'r Cynllun.

Ffyrdd eraill o ddefnyddio eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol

Mae'r ffordd y defnyddiwch eich cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn benderfyniad ariannol o bwys. Efallai y byddai'n ddoeth ichi gael cyngor neu arweiniad i'ch helpu i benderfynu'r dewis sydd orau ichi.

Pensionwise yw gwasanaeth y Llywodraeth a ddarperir gan [Helpwr Arian](#) sy'n cynnig cyngor diduedd yn rhad ac am ddim am eich dewisiadau ynglŷn â'ch cyfraniadau diffiniedig.

Mae'ch cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn bensiwn cyfraniadau diffiniedig sydd ynghlwm wrth eich pensiwn yn y Cynllun.

Ni chaniateir i'ch cronfa bensiynau gymeradwyo eich cais i gymryd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol nes ichi roi gwybod iddynt eich bod wedi cael cyngor drwy Pensionwise neu ddatgan nad ydych yn dymuno hynny. Mae hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae'r hyn y gallwch ei wneud â'ch Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn dibynnu ar bryd y dechreuoch chi'r cynllun a phryd y gadawoch chi'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw'r dewisiadau uchod i gyd ar gael i bob aelod. Nid oes raid ichi fynd am un dewis yn unig, mae modd ichi benderfynu mynd am fwy nag un o'r dewisiadau sydd ar gael ichi.

Efallai bod modd ichi ddefnyddio'ch Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol er mwyn:

- cymryd cyfandaliad
- prynu blwydd-dal gan gwmni yswiriant, banc neu gymdeithas adeiladu

- prynu pensiwn atodol yn y Cynllun
- prynu aelodaeth ychwanegol yn y Cynllun

Os gadawoch chi'r Cynllun cyn 1 Ebrill 2014, nid oes rhaid ichi gymryd eich cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ar yr un pryd â'ch prif bensiwn. Os ydych chi'n eu cymryd yn ddiweddarach, bydd eich dewisiadau'n brinnach.

Gallwch drosglwyddo eich cronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn llwyr i drefniant pensiwn gwahanol. Os gadawoch chi'r Cynllun ar ôl 31 Mawrth 2014, mae'n rhaid ichi wneud hynny cyn cymryd eich pensiwn o'r Cynllun.

Ewch i'r adran **cymryd eich pensiwn a thalu mwy** ar wefan aelodau'r Cynllun i gael gwybod am fwy o ffyrdd o ddefnyddio'ch cronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Bydd eich cronfa bensiynau'n rhoi mwy o wybodaeth ichi am eich dewisiadau ynglŷn â'ch Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn fuan cyn ichi ddechrau cymryd eich pensiwn o'r Cynllun.

Gwarchod eich teulu

Fe gewch chi wybod mwy am y Cynllun yn y **fideos i aelodau: 'Pensions Made Simple'**. Mae 'Amddiffyniad i chi a'ch teulu' yn sôn am fuddion marwolaeth yn y Cynllun.

Pa fuddion fydd yn cael eu talu pan fyddaf i farw?

Pan fyddwch chi farw, telir eich pensiynau i:

- blant cymwys
- gŵr, gwraig neu bartner sifil
- partner cymwys oedd yn cyd-fyw â chi (os bodlonir amodau penodol)

Telir grant marwolaeth hefyd os:

- buoch chi farw yn y swydd fel aelod o'r Cynllun
- yn gadael cyn ymddeol gyda buddion gohiriedig ac yn marw cyn derbyn y rheiny
- yn marw ar ôl derbyn eich pensiwn, os oes llai na deng mlynedd o bensiwn wedi'i dalu

Ni thelir grant marwolaeth ond os ydych chi'n marw cyn troi'n 75 oed.

Faint fydd y grant marwolaeth?

Os byddwch chi farw yn y swydd fel aelod o'r Cynllun: mae'r cyfandaliad yn werth teirgwaith eich cyflog pensiynadwy tybiedig.

Os ydych yn gadael cyn ymddeol gyda buddion gohiriedig a'ch bod yn marw cyn eu derbyn: mae'r cyfandaliad yn werth pum gwaith eich pensiwn blyneddol gohiriedig. Os ydych chi hefyd yn dal i dalu cyfraniadau i'r Cynllun mewn swydd arall, gallai hynny effeithio ar swm y grant marwolaeth a delir.

Os byddwch chi farw pan fyddwch yn derbyn eich pensiwn a chyn troi'n 75 oed: mae'r cyfandaliad yn werth deng gwaith cymaint â swm blynyddol eich pensiwn cyn ildio unrhyw bensiwn am gyfandaliad di-dreth, ond gan dynnu unrhyw bensiwn neu gyfandaliad di-dreth a dalwyd ichi eisoes. Mae'r cyfrifiad ychydig yn wahanol ar gyfer unrhyw ran o'r pensiwn a dderbynioch chi a oedd yn gysylltiedig â'ch aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014. Os ydych chi hefyd yn dal i dalu cyfraniadau i'r Cynllun mewn swydd arall, gallai hynny effeithio ar swm y grant marwolaeth a delir.

I bwy mae'r cyfandaliad grant marwolaeth yn cael ei dalu?

Mae'r Cynllun yn caniatáu ichi ddatgan i bwy y byddech eisiau i'r grant marwolaeth gael ei dalu trwy lenwi ffurflen mynegi dymuniad. Gallwch lawrlwytho copi o'r ffurflen hon o'r **adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan. Gallwch hefyd ffonio i ofyn am gopi drwy'r post. Fe welwch chi fanylion cyswllt eich cronfa bensiynau ar ddiwedd y canllaw hwn.

Mae gan eich cronfa ddisgresiwn llwyr i benderfynu i bwy y mae'n talu unrhyw grant marwolaeth.

Beth fydd yn cael ei dalu i fy mhartner sy'n goroesi?

Bydd eich gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner cymwys oedd yn cyd-fyw â chi'n cael cyfran o'ch pensiwn. Bydd yn cael ei dalu am weddill eu hoes. Fel arfer, mae'r grant yn:

- 30.625% o'r pensiwn a gasgloch ar ôl Ebrill 2014
- 37.5% o'r pensiwn a gasgloch rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2014
- 50% o'r pensiwn a gasgloch cyn mis Ebrill 2008.

Os ydych yn marw yn y swydd fel aelod o'r Cynllun: Bydd y pensiwn yn cynnwys rhan o'r cynnydd y byddech wedi'i gael pe baech wedi ymddeol oherwydd afiechyd.

Os ydych yn gadael cyn ymddeol gyda buddion gohiriedig ac yn marw cyn cael y rheiny: Swm y pensiwn yw'r ganran berthnasol o'ch pensiwn gohiriedig.

Os ydych yn marw tra byddwch yn cael eich pensiwn: Swm y pensiwn yw'r ganran berthnasol o'ch pensiwn cyn ildio pensiwn am gyfandaliad di-dreth a chyn unrhyw ostyngiad neu gynydd am ei dalu'n gynnar neu'n hwyr.

Ymwadiadau

- Ni chaiff rhai rhannau o'ch pensiwn eu cyfrif ar gyfer pensiynau goroeswyr. Mae hynny'n cynnwys pensiwn ychwanegol a brynwyd drwy dalu cyfraniadau pensiwn ychwanegol
- Os oeddech yn yr adran 50:50, ni fydd hyn yn effeithio ar werth pensiwn y goroeswr
- Mae pensiynau ar gyfer **partneriaid cymwys sy'n cydfyw â chi** yn seiliedig ar eich aelodaeth ers 6 Ebrill 1988 oni bai eich bod, cyn 1 Ebrill 2014, wedi dewis talu cyfraniadau ychwanegol er mwyn i aelodaeth cyn 6 Ebrill 1988 gyfrif hefyd
- Efallai y bydd pensiwn y goroeswr yn llai os ydych wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar ôl rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau i'r Cynllun.

Beth fydd yn cael ei dalu i fy mhlant cymwys?

Bydd plant cymwys yn cael cyfran o'ch pensiwn. Bydd y swm yn dibynnu ar nifer y plant sydd gennych chi ac a yw eich partner hefyd yn cael pensiwn.

Cymorth â phroblemau pensiwn

At bwy allaf i droi am gymorth gyda chwestiwn neu gŵyn?

Os oes gennych broblem neu gwestiwn am eich aelodaeth neu fuddion yn y Cynllun, cysylltwch â'ch cronfa bensiynau. Byddant yn ceisio datrys y broblem ac ateb unrhyw gwestiynau mor gyflym â phosib. Os oes gennych gwestiwn ynglŷn â'ch cyfradd gyfrannu, cysylltwch ag adran adnoddau dynol neu gyflogau eich cyflogwr i gael eglurhad o'r ffordd y penderfynwyd y gyfradd y dylech ei thalu.

Os byddwch chi'n dal yn anfodlon ag unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r cynllun, bydd gennych hawl i fynnu adolygiad o'ch cwyn dan y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol. Gallai nifer o gyrff rheoleiddio eraill eich cynorthwyo hefyd.

Y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol

Yn gyntaf, dylech lenwi ffurflen cam 1 y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol a'i dychwelyd i Gronfa Bensiynau Clwyd. Mae'n rhaid ichi wneud hynny cyn pen chwe mis wedi'r dyddiad sydd ar yr hysbysiad o'r penderfyniad neu'r weithred neu'r broblem sy'n destun eich cwyn (neu gyfnod hwy os yw'r dyfarnwr o'r farn ei fod yn rhesymol).

Mae hwn yn adolygiad ffurfiol o'r penderfyniad cychwynnol neu'r weithred neu'r broblem ac mae'n gyfle i ailystyried y mater. Bydd y dyfarnwr yn ystyried eich cwyn ac yn rhoi gwybod ichi am eu penderfyniad. Os ydych yn anfodlon â phenderfyniad y dyfarnwr neu'u methiant i wneud penderfyniad, gallwch lenwi ffurflen cam 2 y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol a'i dychwelyd i Gronfa Bensiynau Clwyd.

Mae canllaw sy'n egluro'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol, gan gynnwys terfynau amser perthnasol, ar gael yn yr **adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan.

HelpwrArian

Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau sy'n darparu Helpwr Arian. Mae Helpwr Arian yn darparu gwybodaeth annibynnol a diduedd am bensiynau'n rhad ac am ddim. Mae Helpwr Arian ar gael i gynorthwyo gweithwyr a buddiolwyr y cynllun gydag unrhyw gwestiwn sydd ganddynt am bensiwn neu unrhyw geisiadau cyffredinol am wybodaeth neu arweiniad am eu buddion pensiwn. Dyma fanylion cyswllt Helpwr Arian:

Dros y ffôn: 0800 011 3797

Gwefan: www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement

Yr Ombwdsmon Pensiynau

Os nad ydych yn gallu datrys y gwyn gyda'r Gronfa, gallwch gyfeirio eich cwyn at yr Ombwdsmon Pensiynau. Gall yr Ombwdsmon Pensiynau ystyried cwynion am y ffordd y caiff cynlluniau pensiwn personol a galwedigaethol eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys pethau fel:

- cymryd gormod o amser i wneud rhywbeth heb reswm da
- peidio â gwneud rhywbeth y dylent fod wedi ei wneud
- torri eu rheolau eu hunain neu'r gyfraith
- darparu gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol
- peidio â gwneud penderfyniad yn y ffordd gywir.

Mae gennych hawl i wneud cwyn i'r Ombwdsmon yn rhad ac am ddim. Nid oes unrhyw derfyn ariannol ar y swm o arian y gall yr Ombwdsmon wneud i rywun ei dalu i chi. Mae ei benderfyniadau'n rhwymo pob parti'n gyfreithiol ac mae modd eu gorfodi yn y llys.

Mae angen cysylltu â'r Ombwdsmon Pensiynau am y gŵyn cyn pen tair blynedd ar ôl i'r hyn rydych yn cwyno amdano ddigwydd, neu os yw'n hwyrach, cyn pen tair blynedd wedi ichi ddod i wybod amdano gyntaf (neu pan ddylech fod wedi gwybod amdano). Mae rhywfaint o le i ymestyn y terfynau amser hynny os yw'n briodol.

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Pensiynau:

Drwy'r post: 10 South Colonnade, Canary Wharf, E14 4PU
Dros y ffôn: 0800 917 4487
E-bost: Enquiries@pensions-ombudsman.org.uk
Ar y wefan: <https://www.pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg>
(drwy gyflwyno ffurflen gwyno ar-lein)

Y Rheoleiddiwr Pensiynau

Y corff hwn sy'n rheoleiddio cynlluniau pensiwn gwaith. Mae gan y Rheoleiddiwr Pensiynau bwerau i amddiffyn aelodau cynlluniau pensiwn gwaith a chymryd camau adferol pan mae angen. Mewn achosion eithafol, gall y rheoleiddiwr godi dirwyon ar ymddiriedolwyr neu gyflogwyr a diswyddo ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn. Os oes gennych bryder am eich pensiwn gwaith, cysylltwch â nhw:

Drwy'r post: Customer Support, Telecom House, 125-135 Preston Road, Brighton, BN1 6AF
Dros y ffôn: 0345 600 0707
Drwy'r wefan: www.thepensionsregulator.gov.uk/cy

Sut allaf i olrhain hen fuddion pensiwn?

Mae'r Gwasanaeth Orlhain Pensiynau'n cadw manylion cynlluniau pensiwn, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ynghyd â'r manylion cyswllt perthnasol. Mae'n darparu gwasanaeth olrhain i gyn-aelodau cynlluniau a'u dibynyddion sydd â hawliau pensiwn, sydd wedi colli cysylltiad â hen gynlluniau. Mae'n rhaid i bob cynllun pensiwn gwaith a phersonol gofrestru â'r gwasanaeth os yw'r aelodau'n dal i gyfrannu i'r cynllun neu fod pobl yn dal i ddisgwyl cael buddion o'r cynllun. Os oes arnoch angen defnyddio'r gwasanaeth olrhain,

Ffoniwch: 0800 731 0175

Ewch i'r wefan: <https://www.gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn>

Cofiwch roi gwybod i'ch darparwyr pensiwn os ydych chi'n symud i fyw neu fod unrhyw fanylion cyswllt eraill yn newid.

Chwalu Jargon

Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

Taliadau ychwanegol yw'r rhain i gynyddu eich buddion pensiwn yn y dyfodol. Gallwch hefyd dalu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i gael yswiriant bywyd ychwanegol.

Mae gan bob cronfa yn y Cynllun drefniant Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol sy'n eich galluogi i fuddsoddi arian ynddo drwy ddarparwr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol – yn aml, cwmni yswiriant neu gymdeithas adeiladu. Didynnir y Cyfraniadau hyn yn uniongyrchol o'ch cyflog ac maent yn destun rhyddhad treth.

Corff derbyn

Corff derbyn yw cyflogwr sy'n dewis defnyddio'r Cynllun fel eu pensiwn gwaith, dan gytundeb derbyn. Mae'r rhain yn dueddol o fod yn gyflogwyr fel elusennau a chontractwyr.

Cyflog pensiynadwy tybiedig

Mae cyflog pensiynadwy tybiedig yn swm o gyflog damcaniaethol mae'n rhaid i gyflogwyr ei gyfrifo pan ostyngir eich cyflog pensiynadwy oherwydd eich bod yn absennol o'r gwaith mewn amgylchiadau penodol, fel absenoldeb salwch neu absenoldeb yn gysylltiedig â phlant. Defnyddir y swm o gyflog damcaniaethol hwnnw'n sail ar gyfer sicrhau eich bod yn casglu buddion pensiwn fel petaech yn y gwaith ac yn cael cyflog arferol.

Defnyddir cyflog pensiynadwy tybiedig hefyd i gyfrifo:

- unrhyw gynnydd yn eich pensiwn o ganlyniad i ymddeol ar sail afiechyd
- unrhyw gyfandaliad grant marwolaeth os byddwch yn marw yn y swydd, ac
- unrhyw gynnydd sydd wedi'i gynnwys mewn buddion goroeswr os byddwch yn marw yn y swydd.

Dyddiad cofrestru awtomatig

P'un bynnag o'r ddau isod a ddaw gyntaf:

- y dyddiad y trowch chi'n 22 oed, cyhyd â'ch bod yn ennill mwy na £10,000 (ffigwr 2025/2026) y flwyddyn yn y swydd, neu
- dyddiad dechrau'r cyfnod cyflog cyntaf yn y swydd rydych yn ennill tâl blynyddol mwy na £10,000 (ffigwr 2025/2026) yn ei ystod, cyhyd â'ch bod yn 22 oed neu'n hŷn ac yn iau nag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar y pryd.

Asesir enillion drwy drosi'ch tâl yn ystod cyfnod cyflog penodol yn swm blynyddol.

Darpariaethau cofrestru awtomatig

Mae'n rhaid i bob cyflogwr gofrestru eu gweithwyr sy'n ddeiliaid swyddi cymwys ar gynllun pensiwn gwaith yn awtomatig oni bai fod y cyflogwr yn penderfynu gohirio hyn am gyfnod hyd at dri mis. Mewn rhai achosion, nid oes raid i'r cyflogwr gofrestru rhywun. Er enghraifft, os yw rhywun wedi optio allan yn ddiweddar.

Pan mae rhywun wedi cofrestru mewn cynllun, gallant ddewis optio allan. Os yw rhywun yn optio allan, fel arfer mae'n rhaid i'r cyflogwr eu hailgofrestru'n awtomatig mewn cynllun bob rhyw dair blynedd.

Partneriaeth sifil (partner sifil)

Mae partneriaeth sifil yn berthynas rhwng dau unigolyn o'r un rhyw neu o'r naill ryw a'r llall, sy'n cael ei ffurfio pan maent yn cofrestru fel partneriaid sifil i'w gilydd.

Mynegai Prisiau Defnyddwyr

Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yw'r llinyn mesur swyddogol ar gyfer chwyddiant prisiau defnyddwyr yn y Deyrnas Gyfunol. Os ydych yn talu cyfraniadau i'r Cynllun, y Mynegai hwn a ddefnyddir ar hyn o bryd yn sail i addasu gwerth eich cofnod pensiwn ym mis Ebrill ar ôl diwedd pob blwyddyn yn y cynllun.

Bob mis Ebrill ar ôl i chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau i'r Cynllun, fe'i defnyddir i addasu gwerth eich pensiwn gohiriedig neu'r pensiwn sy'n cael ei dalu ichi. Mae'r addasiad yn sicrhau bod eich pensiwn yn tyfu'n unol â chostau byw.

Plant cymwys

Ystyr plant cymwys yw eich plant chi. Ar ddyddiad eich marwolaeth, mae'n rhaid iddynt fod:

- yn blant naturiol i chi (y mae'n rhaid eu bod wedi'u geni llai na 12 mis cyn ichi farw)
- yn blentyn mabwysiedig, neu
- yn llysblentyn neu blentyn a dderbyniwyd gennych chi yn aelod o'ch teulu ac a oedd yn ddibynol arnoch chi (nid yw hyn yn cynnwys plentyn rydych yn ei noddi ar gyfer elusen).

Mae'n rhaid i blant cymwys fod:

- yn iau na 18 oed, neu
- rhwng 18 a 23 oed ac mewn addysg llawn amser neu hyfforddiant galwedigaethol (gall eich cronfa yn y Cynllun ddal i drin y plentyn fel plentyn cymwys, hyd yn oed os oes bwlch mewn addysg llawn amser neu hyfforddiant galwedigaethol), neu
- yn methu â chael gwaith cyflogedig oherwydd nam corfforol neu feddyliol a naill ai:
 - yn iau na 23 oed, neu
 - â nam sydd, ym marn ymarferydd meddygol cofrestredig annibynol, yn debygol o fod yn barhaol a bod y plentyn yn ddibynol arnoch ar ddyddiad eich marwolaeth o ganlyniad i'r nam meddyliol neu gorfforol hwnnw.

Partner cymwys sy'n cyd-fyw

Mae partner cymwys sy'n cyd-fyw â chi'n bartner sy'n byw gyda chi sydd, ar ddyddiad eich marwolaeth, wedi bodloni'r holl amodau canlynol am gyfnod parhaus o ddwy flynedd o leiaf:

- eich bod chi a'ch partner sy'n cyd-fyw â chi yn rhydd, ac wedi bod yn rhydd, i briodi neu ffurfio partneriaeth sifil gyda'ch gilydd, ac

- eich bod chi a'ch partner sy'n cyd-fyw â chi wedi bod yn byw gyda'ch gilydd fe pe baech yn bâr priod, neu'n bartneriaid sifil, ac
- nad ydych chi na'ch partner sy'n cyd-fyw â chi wedi bod yn byw â rhywun arall fel petaech chi/nhw yn bâr priod neu bartneriaid sifil, ac
- naill ai bod eich partner sy'n cyd-fyw â chi yn ddibynol yn ariannol arnoch chi, ac wedi bod, neu eich bod chi'n ddibynol yn ariannol ar eich gilydd, ac wedi bod.

Mae eich partner yn ariannol ddibynol arnoch chi os mai chi sydd â'r incwm mwyaf. Mae bod yn ddibynol yn ariannol ar eich gilydd yn golygu eich bod yn dibynnu ar arian y naill a'r llall ohonoch i gynnal eich safon o fyw. Nid yw'n golygu bod angen i chi fod yn cyfrannu'n gyfartal. Er enghraifft, os yw incwm eich partner yn llawer mwy na'ch un chi, efallai eu bod nhw'n talu'r morgais a'r rhan fwyaf o'r biliau, a'ch bod chi'n talu am y siopa wythnosol.

Telir pensiwn goroeswr i'ch partner sy'n cyd-fyw â chi os:

- yw'r holl feini prawf uchod wedi'u bodloni ar ddyddiad eich marwolaeth, ac os
- yw eich partner sy'n cyd-fyw â chi'n rhoi sicrwydd i'ch cronfa yn y Cynllun y bodlonwyd yr amodau uchod am gyfnod parhaus o ddwy flynedd o leiaf yn union cyn eich marwolaeth.

Nid oes angen i chi lenwi ffurflen i enwebu eich partner sy'n cyd-fyw â chi. Fodd bynnag, mae croeso ichi roi manylion eich partner sy'n cyd-fyw â chi i'ch cronfa bensiynau. Pan fyddwch chi farw, bydd y gronfa bensiynau angen gweld tystiolaeth y bodlonwyd yr amodau ar gyfer pensiwn partner oedd yn cyd-fyw â chi.

Deiliad swydd cymwys

Deiliad swydd cymwys yw gweithiwr sy'n 22 oed neu'n hŷn ac yn iau nag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ac yn ennill mwy na £10,000 y flwyddyn (ffigwr 2025/2026). Caiff enillion eu hasesu drwy drosi'r cyflog yn y cyfnod cyflog perthnasol yn ffigwr blynyddol.

Cyflog terfynol

Fel arfer, dyma'r cyflog ar gyfer eich blwyddyn olaf o aelodaeth yn y cynllun y gwnaethoch dalu cyfraniadau arni, neu un o'r 2 flynedd flaenorol os yw hynny'n uwch. Mae'n cynnwys eich cyflog arferol, lwfans sifftiau dan gontract, bonws, goramser dan gontract, tâl mamolaeth, tâl tadolaeth, tâl mabwysiadu, tâl rhannu absenoldeb rhieni, tâl oherwydd profedigaeth rhiant, tâl gofal newydd-anedig ac unrhyw fudd trethadwy arall a nodir yn bensiynadwy yn eich contract. Nid yw'n cynnwys goramser y tu allan i'r contract.

Oedran Ymddeol Arferol

Oedran ymddeol arferol yw eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed os yw hynny'n hwyrach) ar gyfer buddion pensiwn a gasglwyd ers 1 Ebrill 2014. Dyma'r oedran y gallwch gymryd y pensiwn rydych wedi'i gasglu heb unrhyw ostyngiadau. Os dewiswch gymryd eich pensiwn cyn eich oedran ymddeol arferol, bydd fel arfer yn gostwng oherwydd ei dalu'n gynharach. Os ydych yn ei gymryd ar ôl eich oedran ymddeol arferol, bydd yn cynyddu oherwydd ei dalu'n hwyrach.

Defnyddiwch **gyfrifiannell oedran Pensiwn y Wladwriaeth gan y Llywodraeth** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) i gael gwybod beth yw eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Gallai eich Oedran Pensiwn y Wladwriaeth newid yn y dyfodol. Os felly, byddai hyn hefyd yn newid eich oedran ymddeol arferol yn y Cynllun ar gyfer buddion a gasglwyd ers 1 Ebrill 2014. Ar ôl dechrau talu'ch pensiwn o'r Cynllun i chi, ni fydd unrhyw newid yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol yn effeithio ar eich oedran ymddeol arferol yn y Cynllun.

Os oeddech yn talu cyfraniadau i'r Cynllun cyn 1 Ebrill 2014, mae oedran ymddeol arferol eich buddion cyflog terfynol wedi'i warchod, sef 65 oed i'r mwyafrif o bobl.

Fel arfer, mae'n rhaid i'r holl fuddion pensiwn sy'n cael eu talu wrth i rywun ymddeol yn arferol gael eu cymryd ar yr un pryd. Ni allwch ddewis cael y pensiwn y gwnaethoch ei gasglu cyn mis Ebrill 2014 pan fyddwch chi'n 65 oed a'r pensiwn a gasgloch ers mis Ebrill 2014 pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Gallai rheolau gwahanol fod yn berthnasol os ydych yn cymryd ymddeoliad hyblyg.

Cofnod pensiwn (a elwir hefyd yn gyfrif pensiwn)

Bob blwyddyn yn y cynllun, cyfrifir y pensiwn rydych wedi'i gasglu yn ystod y flwyddyn a'i ychwanegu i'ch cofnod pensiwn. Gallai addasiadau gael eu gwneud i'ch cofnod yn ystod y flwyddyn yn y cynllun o ganlyniad i:

- drosglwyddo hawliau pensiwn i'r cofnod yn ystod y flwyddyn
- pensiwn ychwanegol y gwnaethoch ei brynu yn ystod y flwyddyn
- pensiwn ychwanegol sy'n cael ei roi i chi gan eich cyflogwr
- gostyngiad oherwydd Gorchymyn Rhannu Pensiwn neu gytundeb perthnasol yn yr Alban (yn dilyn ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil), a
- gostyngiad oherwydd bod angen talu treth Lwfans Blynnyddol a'ch bod wedi gofyn i'r cynllun dalu hwn ar eich rhan

Mae eich cofnod pensiwn yn cael ei ailbrisio ym mis Ebrill yn dilyn diwedd pob blwyddyn yn y cynllun i gyfrif am newidiadau i gostau byw. Mae'r addasiad hwn yn cael ei wneud yn unol â mynegai Gorchymyn Ailbrisio'r Trysorlys, sef cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Bydd gennych gofnod pensiwn ar wahân ar gyfer pob cyflogaeth.

Yn ychwanegol at gofnod pensiwn aelod gweithredol, hefyd mae:

- cofnod pensiwn aelod gohiriedig
- cofnod ad-daliad gohiriedig
- cofnod pensiwn ymddeoliad
- cofnod pensiwn ymddeoliad hyblyg
- cofnod aelod sy'n bensiynwr gohiriedig
- cofnod credyd pensiwn
- cofnod aelod sy'n oroeswr.

Bydd y cofnodion hyn yn cael eu haddasu gan unrhyw ddiidyniadau ar gyfer unrhyw Orchymyn Rhannu Pensiwn neu gytundeb perthnasol yn yr Alban (yn dilyn ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil) ac ar gyfer unrhyw daliad treth Lwfans Blynnyddol yr ydych chi wedi gofyn i'r cynllun dalu ar eich rhan. Mae'r cofnodion yn cael eu cynyddu bob mis Ebrill ar hyn o bryd, yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Ni fydd cofnod ad-daliad gohiriedig yn cael ei addasu fel hyn.

Cyflog pensiynadwy

Y cyflog rydych fel arfer yn talu cyfraniadau arno yw eich cyflog arferol neu gyflog ac unrhyw lwfans sifft, bonws, goramser (dan gontract a thu allan i gontract), tâl mamolaeth, tâl tadolaeth, tâl mabwysiadu, tâl rhannu absenoldeb rhieni, tâl oherwydd profedigaeth rhiant, tâl gofal newydd-anedig ac unrhyw fudd trethadwy arall a nodir yn pensiynadwy yn eich contract.

Nid ydych yn talu cyfraniadau ar:

- unrhyw lwfansau teithio neu gynhaliaeth
- tâl yn lle rhybudd diswyddo
- tâl yn lle colli gwyliau
- unrhyw daliad i'ch cymell i beidio â gadael cyn i'r taliad gael ei wneud
- unrhyw iawndal sy'n cael ei ddyfarnu (ar wahân i daliad sy'n cynrychioli ôl-ddyledion cyflog) at ddibenion sicrhau cyflog cyfartal.
- tâl sy'n gysylltiedig â cholli taliadau neu fuddion pensiynadwy yn y dyfodol
- unrhyw gyflog mae eich cyflogwr yn ei dalu os ydych yn mynd ar gyfnod gwasanaeth y lluoedd wrth gefn
- gwerth ariannol car neu dâl yn lle car (ar wahân i rai achosion hanesyddol).

Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus

Cynllun pensiwn gweithle ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus, megis gweision sifil, barnwyr gweithwyr llywodraeth leol, athrawon, gweithwyr gwasanaeth iechyd, gweithwyr tân ac achub neu aelodau o'r heddlu ac aelodau o'r lluoedd arfog.

Cyfnod cymhwyso (a elwir hefyd yn gyfnod ymuno)

I fod yn gymwys ar gyfer buddion, mae'n rhaid i chi fod yn aelod gweithredol o'r Cynllun am o leiaf dwy flynedd. Mae hyn fel arfer yn golygu talu cyfraniadau'r Cynllun am o leiaf dwy flynedd. Gelwir y cyfnod hwn yn gyfnod cymhwyso. Fe'i gelwir hefyd yn gyfnod ymuno o bryd i'w gilydd.

Gallwch hefyd fodloni'r cyfnod cymhwyso cyn dwy flynedd os ydych:

- wedi dod â throsglwyddiad hawliau pensiwn i'r Cynllun o gynllun pensiwn gwaith gwahanol neu oddi wrth sefydliad pensiwnau Ewropeaidd a bod hyd y cyfnod gwasanaeth oedd gennych yn y cynllun neu sefydliad hwnnw'n ddwy flynedd neu fwy, neu, wrth ei ychwanegu at y cyfnod rydych wedi bod yn aelod o'r Cynllun, fod y cyfanswm yn ddwy flynedd neu fwy; neu

- wedi dod â throsglwyddiad hawliau pensiwn i'r Cynllun o gynllun neu drefniant pensiwn lle nad oedd caniatâd i chi gael ad-daliad cyfraniadau, neu
- yn y gorffennol, wedi trosglwyddo hawliau pensiwn o'r Cynllun i gynllun pensiwn tramor (er enghraifft, i gynllun pensiwn tramor cydnabyddedig, cymwys), neu
- eisoes â buddion gohiriedig neu'n cael pensiwn gan y Cynllun (ar wahân i bensiwn goroeswr neu bensiwn aelod credyd pensiwn), neu
- wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyn 6 Ebrill 2016 fel aelod o'r Cynllun a rhoi'r gorau i gyfrannu i'r Cynllun yn y flwyddyn rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu'n hwyrach, neu
- yn rhoi'r gorau i gyfrannu i'r Cynllun yn 75 oed, neu
- yn marw yn y swydd.

Absenoldeb perthnasol yn gysylltiedig â phlant

Mae absenoldeb perthnasol yn gysylltiedig â phlant yn cynnwys:

- Cyfnod Mamolaeth neu Absenoldeb Mabwysiadu Arferol (y 26 wythnos gyntaf fel arfer)
- Cyfnod Mamolaeth neu Absenoldeb Mabwysiadu Ychwanegol gyda Thâl (ar ôl wythnos 26 hyd at wythnos 39 fel arfer)
- Cyfnod Tadolaeth
- Cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhieni gyda Thâl
- Absenoldeb Oherwydd Profedigaeth Rhiant gyda Thâl
- Gofal Newydd-anedig Thâl

Cyfnod Gwasanaeth y Lluoedd Wrth Gefn

Mae hyn yn digwydd pan fo milwr wrth gefn yn cael eu byddino a'u galw i gymryd rhan mewn gweithrediadau milwrol. Gall y cyfnod byddino fod hyd at uchafswm o ddeuddeg mis. Yn ystod cyfnod o wasanaeth y lluoedd wrth gefn, byddwch yn parhau i gasglu pensiwn yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy tybiedig, cyn belled eich bod yn dewis aros yn y Cynllun yn ystod y cyfnod hwnnw.

Blwyddyn y cynllun

Mae blwyddyn y cynllun yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth.

Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Dyma'r oed cynharaf y gallwch gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Cododd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 66 i ddynion a merched rhwng Rhagfyr 2018 a Hydref 2020.

Yn ôl y rheolau cyfredol, bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn codi i 67 rhwng 2026 a 2028 ac i 68 rhwng 2044 a 2046. Mae'r Llywodraeth, fodd bynnag, wedi **cyhoeddi cynlluniau** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) i godi'r oedran i 68 yn gynharach, rhwng 2037 a 2039.

Cyfnod Ymuno

Gweler y cyfnod cymhwyso ar **dudalen 31**.

Mwy o wybodaeth ac ymwadiad

Canllaw ar gyfer gweithwyr yng Nghymru a Lloegr yw hwn ac mae'n gyson â rheolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chyfreithiau sydd mewn grym ym mis Ebrill 2025.

Y wefan ar gyfer holl aelodau'r Cynllun yn y Deyrnas Gyfunol yw www.lgpsmember.org (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Ni all y canllaw hwn ymdrin â phob sefyllfa bersonol bosib. Nid yw'n sôn am yr holl fuddion na hawliau ymddeol ar sail afiechyd sy'n berthnasol i'r aelodau hynny sydd â buddion ac arnynt orchymyn rhannu pensiwn yn dilyn ysgariad neu derfynu partneriaeth sifil. Nid yw'n trafod hawliau sy'n berthnasol i nifer cyfyngedig o weithwyr chwaith, fel rhai:

- y mae eu buddion pensiwn yn cynyddu yn unrhyw flwyddyn dreth o fwy na'r lwfans blynyddol safonol o £60,000 (neu ar gyfer rhai sy'n ennill llawer o arian, y lwfans blynyddol taprog), neu
- sy'n aelodau â hawliau gwarchodedig.

Fe gewch chi wybodaeth sylfaenol am eich lwfans blynyddol ar:

<https://www.lgpsmember.org/your-pension/the-essentials/tax/> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Os bydd unrhyw anghydfod ynglŷn â'ch buddion pensiwn, y ddeddfwriaeth briodol fydd drechaf. Nid yw'r canllaw hwn yn rhoi unrhyw hawliau contract na hawliau statudol, ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig.

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r cyfreithiau Diogelu Data er mwyn darparu gwasanaeth gweinyddu pensiwn i chi. I gael ychwaneg o wybodaeth am sut ydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch gwybodaeth, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan Cronfa Bensiynau Clwyd:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Hysbysiad-Preifatrwydd/cartref.aspx>

Mae gwybodaeth fanylach am y CPLIL ar gael yma:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>



cronfabensiynauclywd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Sylwer mai Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd a'n bod yn defnyddio'ch data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data er mwyn darparu gwasanaeth gweinyddu pensiwn i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio eich data, gyda phwy y byddwn yn ei rannu a'r hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.